Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

The Commissioner for Public Appointments

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Dyddiad cau: 7 Hydref 2022, 16:00

Gwybodaeth am Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Diolch yn fawr iawn i chi am eich diddordeb yn swydd Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC). Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth am YGAC i ymgeiswyr, ynghyd â manylion am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r swydd a'r broses ddethol.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am YGAC edrychwch ar wefan yr Ymddiriedolaeth neu mae croeso i chi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Rydym yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl ledled Cymru, gan roi gofal clinigol ansawdd uchel ar sail anghenion cleifion lle bynnag a phryd bynnag y bo angen. Mae gennym bron i 4,000 o staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau ambiwlans brys goleuadau glas, y gwasanaeth cludo cleifion nad ydynt yn rhai brys a'r gwasanaeth 111. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae YGAC wedi esblygu i fod yn un o'r gwasanaethau ambiwlans mwyaf blaengar yn glinigol yn y byd. Gwnaed cynnydd cadarn, ond mae cymdeithas yn parhau i newid a gwnaeth dyfodiad pandemig Covid-19 gryfhau ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i ddechrau ar gam nesaf ei thaith wrth iddi geisio elwa o'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig.

Ein huchelgais yn awr, mewn cydweithrediad â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid, yw newid rôl YGAC, fel nad yw'n gweithredu fel darparydd allweddol gofal brys ac argyfwng ar draws Cymru yn unig, ond hefyd yn gweithredu fel y porth gofal i bobl Cymru, gyda'r gwasanaeth 111 fel y man cyswllt cyntaf i'r rhai angen cymorth, cyngor a thriniaeth glinigol frys, yn ystod oriau arferol a thu hwnt i oriau arferol.

Bydd hyn yn arwain at leihau nifer y cleifion sy'n mynd i'r ysbyty ac yn cynyddu'r gofal a ddarperir yn, neu'n agosach at y cartref, gan amrediad o ymarferwyr arbenigol yn meddu ar amrywiaeth o sgiliau clinigol. Mae goruchwylio datblygiad parhaus y gwasanaeth ambiwlans a harneisio ei botential i gynyddu ei rôl yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru yn un sy'n cyflwyno heriau a chyfleoedd.

Mae llawer i'w wneud i angori ac atgyfnerthu perfformiad gwasanaeth 999 craidd y sefydliad yn enwedig, gan weithio â'n byrddau iechyd partner i ddatrys heriau strwythurol yn y system, tra'n parhau i ganolbwyntio ar yr angen i newid y ffordd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol os yw'r gwasanaeth i ymateb i'r galw cynyddol a disgwyliadau'r cyhoedd.

Mae YGAC yn awyddus i ddenu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol i'n cynorthwyo i wireddu'r uchelgais hon a chyflymu gweddnewid y sefydliad, a'n cynorthwyo i deilwra yr hyn a gynigir i'n poblogaeth. Mae YGAC yn arbennig o awyddus i wella cydbwysedd rhywedd ei Fwrdd a denu aelodau o gefndiroedd ethnig gwahanol. Gwerthfawrogir y cyfraniad y gall aelodau ei wneud ar sail eu profiadau eu hunain.

Swydd Yr Is-Gadeirydd

Mae Bwrdd YGAC yn cyflawni rôl allweddol wrth lunio strategaeth, gweledigaeth, pwrpas a diwylliant yr Ymddiriedolaeth. Dan arweiniad Cadeirydd annibynnol a chymysgedd o Aelodau Gweithredol ac Anweithredol, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb ar y cyd dros berfformiad yr Ymddiriedolaeth.

Bydd yr Is-gadeirydd yn cefnogi'r Cadeirydd wrth ddatblygu perfformiad a llywodraethu'r Bwrdd yn effeithiol, gan weithredu gwerthoedd y GIG yng Nghymru a hyrwyddo hyder y cyhoedd a phartneriaid. Bydd yr Is-gadeirydd yn cryfhau gallu'r aelodaeth annibynnol ac yn gweithredu fel bwrdd seinio i'r Cadeirydd.

Cyfrifoldebau'r Is-gadeirydd:

Strategaeth

- Cyfrannu at drafodaeth adeiladol ynghylch datblygiad strategol yr Ymddiriedolaeth ac unrhyw faterion arwyddocaol a pherthnasol eraill a wynebir;
- Darparu barn a chyngor annibynnol ynghylch materion yn ymwneud ag ansawdd, strategaeth, gweledigaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad;
- Herio, dylanwadu ar a chefnogi'r Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn modd adeiladol wrth ddatblygu cynigion ar gyfer strategaethau o'r fath;
- Darparu arweinyddiaeth, ar y cyd ag aelodau eraill y Bwrdd, mewn fframwaith o fesurau rheoli effeithiol a darbodus i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir yr Ymddiriedolaeth;

Cynllunio

- Craffu ar gynllun tymor canolig tair blynedd yr Ymddiriedolaeth, gan sicrhau ei fod yn nodi amcanion clir i gyflawni'r strategaeth; yn cynnwys yr adnoddau ariannol, gweithredol, gweithlu ac ansawdd angenreidiol i'r Ymddiriedolaeth gyflawni ei hamcanion ac adolygu'r perfformiad yn erbyn y cynllun yn rheolaidd.

Perfformiad

- Derbyn, adolygu a chraffu'n briodol ar ddata a gwybodaeth yn ymwneud ag ansawdd, perfformiad, y gweithlu a'r sefyllfa ariannol er mwyn cymharu'r cyflawniadau yn erbyn y targedau a, lle bo angen, gefnogi rhoi camau gweithredu adferol ar waith.
- Chwilio am amcanion heriol er mwyn gwella perfformiad;
- Sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn bodoli i sicrhau hyfywedd ariannol yr Ymddiriedolaeth.

Llywodraethu

- Dirprwyo ar ran y Cadeirydd ac arwain y Bwrdd yn ei absenoldeb a chyflawni swyddogaethau ychwanegol, fel y cytunwyd gyda'r Cadeirydd;
- Darparu arweinyddiaeth gref, effeithiol a gweledol yn fewnol trwy gyfrwng y Bwrdd a'r Pwyllgorau, ac yn allanol trwy gysylltiadau ag amrediad eang o randdeiliaid;

- Sicrhau bod y systemau a'r mesurau rheoli mewnol ar gyfer rheoli risgiau yn gadarn ac yn cael eu gweithredu'n dda;
- Dadansoddi a dehongli gwybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd, gan ofyn am eglurhad, sicrwydd a thriongli'r wybodaeth, lle bynnag y bo'n bosibl;
- Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â'i Rheolau Sefydlog, ei pholisïau a deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.

Diwylliant ac Ymddygiad

- Gweithredu'r Saith Egwyddor mewn Bywyd Cyhoeddus (sy'n cael eu hadnabod fel Egwyddorion Nolan hefyd), sef anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth;
- Darparu arweinyddiaeth gref, effeithiol a gweledol yn fewnol trwy gyfrwng y Bwrdd a'r Pwyllgorau, ac yn allanol trwy gysylltiadau ag amrediad eang o randdeiliaid ac i Fyrddau Iechyd Lleol (a sefydliadau eraill, fel bo'n briodol) yn benodol, ar draws gofal sylfaenol, gofal yn y gymuned a gwasanaethau iechyd meddwl.
- Cefnogi diwylliant sy'n annog staff, cleifion, teuluoedd a'r cyhoedd i fynegi pryderon sy'n derbyn sylw priodol yn dilyn hynny;
- Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn croesawu ac yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'w holl boblogaeth, cleifion, staff a rhanddeiliaid;
- Arddangos ac annog y safonau uniondeb, unplygrwydd a llywodraethu uchaf, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â gofynion statudol ac arferion gorau;
- Darparu arweinyddiaeth dosturiol a gweledol wrth gefnogi a hyrwyddo diwylliant iach i'r Ymddiriedolaeth ac adlewyrchu hyn, a gwerthoedd yr Ymddiriedolaeth, yn ei ymddygiad personol;
- Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gwerthfawrogi dwyieithrwydd a diwylliant dwyieithog ac ymrwymiad i hybu, defnyddio a phrif ffrydio'r Gymraeg;
- Defnyddio gwybodaeth a phrofiad blaenorol a'u dylanwad o ran gwaith y Bwrdd i hybu arloesedd, chwilfrydedd a herio'r norm;

Ymgysylltu

- Disgwylir i'r Is-gadeirydd ddeall busnes yr Ymddiriedolaeth trwy ymwneud gweithredol, gyda chymorth a chefnogaeth i gyflawni hyn;
- Llunio a chynnal perthnasoedd agos â phartneriaid a grwpiau rhanddeiliaid yr Ymddiriedolaeth i hyrwyddo gweithredu gweithga'eddau'r Ymddiriedolaeth yn effeithiol;
- Cymryd rhan fel aelod o Rwydwaith Is-gadeiryddion Cymru Gyfan.

Gweithgareddau'r Bwrdd

- Cyfranogi'n llawn yng ngwaith y Bwrdd a'i Bwyllgorau, yn cynnwys ymgysylltu cyn ac ar ôl cyfarfodydd a gwerthusiadau blynyddol i gefnogi llywodraethu da;
- Mynychu a, lle bo'n berthnasol, cadeirio Pwyllgorau'r Bwrdd a chyfarfodydd ad hoc eraill y Bwrdd;
- Mynychu sesiynau datblygiad y Bwrdd a chyfleoedd hyfforddiant a datblygiad mewnol ac allanol eraill;
- Cyflawni'r dyletswyddau yng nghyswllt y Gronfa Elusennol, ar y cyd ag aelodau eraill y Bwrdd, gan fod y Bwrdd yn gweithredu fel yr ymddiriedolwr corfforaethol.
- Cymryd a hyrwyddo rôl hyrwyddwr mewn meysydd penodol sy'n cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru neu gan yr Ymddiriedolaeth;
- Mynd trwy arfarniad perfformiad personol yn flynyddol, a chymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant ychwanegol a nodwyd o ganlyniad i'r broses werthuso er mwyn sicrhau cyflawni ei amcanion personol.

Manyleb yr Unigolyn:

Mae'r Gweinidog am benodi unigolyn sy'n meddu ar y rhinweddau isod:

Meini Prawf Hanfodol

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fedru dangos ei fod yn meddu arnynt, yn cynnwys:

- Profiad o arweinyddiaeth strategol ar lefel bwrdd mewn sefydliad sector cyhoeddus, sector preifat neu sefydliad trydydd sector
- Ymrwymiad i ymgysylltu â'n staff, ein rhanddeiliaid a phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ni
- Dealltwriaeth o ac ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Y gallu i gydweithio a gweithredu fel rhan o dîm i gyflawni targedau cyffredin
- Y gallu i gymhwyso mewnwelediad strategol a phrofiad personol er budd ein staff, ein rhanddeiliaid a phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ni
- Profiad o graffu a herio'n annibynnol tra'n cynnal perthnasoedd adeiladol
- Sgiliau cyfathrebu a/neu siarad cyhoeddus rhagorol

Meini Prawf Dymunol

A allai gynnwys unrhyw rai o'r isod:

- Profiad o gadeirio ar lefel Bwrdd neu Bwyllgorau Bwrdd
- Dealltwriaeth am reoli risgiau a systemau a mesurau rheoli mewnol a rhoi sicrwydd
- Dangos profiad o arweinyddiaeth a rheoli newid strategol, yn cynnwys newid diwylliant
- Enw da sy'n ennyn parch o ran arbenigedd gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd mewn sefydliad sector cyhoeddus, sector preifat neu drydydd sector
- Profiad o weithio mewn amgylcheddau wedi'u rheoleiddio
- Profiad penodol o reoli strategaeth neu reoli cyffredinol
- Dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu YGAC wrth ddarparu gwasanaethau diogel, ansawdd uchel, i gleifion a sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n gynaliadwy yn glinigol ac yn ariannol.

Yn ychwanegol, bydd ymgeiswyr ar gyfer y swydd yn dangos ymrwymiad i gadw at y saith egwyddor mewn bywyd cyhoeddus Y Saith Egwyddor mewn Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) ac ymddygiadau YGAC 'Ein Gorau'.

Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn rhagofyniad ar gyfer penodi. Fodd bynnag, disgwylir i'r holl ymgeiswyr ddangos empathi tuag at yr iaith a dangos arweinyddiaeth i gryfhau darpariaeth gwasanaeth dwyieithog yn y GIG yng Nghymru. Y lefel sgiliau Cymraeg dymunol yw:

Dealltwriaeth	Medru deall sgyrsiau arferol sy'n ymwneud â gwaith
Darllen	Medru darllen deunydd syml ar bynciau bob dydd gyda dealltwriaeth
Siarad	Medru sgwrsio mewn rhai sgyrsiau sy'n ymwneud â gwaith
Ysgrifennu	Medru ysgrifennu gohebiaeth syml sy'n ymwneud â gwaith

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Disgwylir i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol ac ymddygiad personol. Gofynnir i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus ymrwymo i'r Cod Ymddygiad i Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus.

Ffeithiau allweddol am y swydd:

Lleoliad:

Mae'r Ymddiriedolaeth yn wasanaeth cenedlaethol, a chynhelir cyfarfodydd ledled Cymru ac ar-lein trwy gyfrwng Teams. Wrth i ni ddychwelyd i gynnal cyfarfodydd y Bwrdd a sesiynau datblygiad y Bwrdd wyneb yn wyneb mae'r rhain yn debygol o fod yng Nghaerdydd yn bennaf, a bydd cyfarfodydd rhanbarthol rheolaidd yn cael eu cynnal hefyd i ymgysylltu â'r staff, y cyhoedd a'n rhanddeiliaid.

Ymrwymiad amser:

8 diwrnod y mis.

Cyfnod y swydd:

Penodiad dechreuol am 4 blynedd.

Cydnabyddiaeth ariannol:

£21,408 y flwyddyn ynghyd â chostau teithio a threuliau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol.

Gwneud Cais

Ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a chlicio ar y botwm 'ymgeisio' ar frig y gornel chwith i wneud cais.

Os ydych chi'n cyflwyno cais am benodiad cyhoeddus yng Nghymru am y tro cyntaf bydd angen i chi gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi wneud hyn, a byddwch yn medru gweld statws eich cais ar unrhyw adeg.

Bydd angen llenwi ffurflen ar-lein ac uwchlwytho dwy ddogfen atodol er mwyn gwneud cais:

- CV llawn; a
- datganiad personol yn rhoi manylion eich profiad chi, sut rydych chi'n bodloni disgrifiad y swydd a manyleb yr unigolyn a sut y byddwch chi'n cyfrannu at rôl yr Is-gadeirydd.

Dylid uwchlwytho'r ddwy ddogfen yn adran 'atodiad dogfen(nau) ategol' y ffurflen gais ar-lein. Os nad ydych yn gwneud hyn gallai eich cais gael ei ddiystyru.

Os oes arnoch chi angen addasiadau i'ch galluogi i wneud cais, neu unrhyw gymorth neu arweiniad, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus - penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Curriculum Vitae

Sicrhewch bod eich CV yn cynnwys manylion cryno am eich swydd gyfredol neu fwyaf diweddar, a'r dyddiadau y buoch yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol cyfredol neu yn y gorffennol hefyd, os gwelwch yn dda.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol ac unrhyw rai o'r meini prawf dymunol a nodir ym manyleb yr unigolyn yn y pecyn hwn. Dylai'r datganiad gynnwys enghreifftiau sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf ar gyfer y swydd. Dylai'r enghreifftiau hyn ddisgrifio eich swyddogaeth a'ch dull chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Mae croeso i chi ddefnyddio enghreifftiau o'ch gwaith proffesiynol ac o'ch profiadau personol.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen A4 yn defnyddio ffont Arial maint 12. Gallai'r panel penodi benderfynu diystyru unrhyw beth sy'n goresgyn hyn.

Geirdaon

Nodwch ddau enw cyswllt os gwelwch yn dda (geirda cyflogwr/proffesiynol a geirda personol). Cysylltir â nhw yn achos ymgeiswyr llwyddiannus yn unig.

The Broses Ddethol

Bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn penodi'r Is-gadeirydd a bydd yn cael ei gynorthwyo i wneud y penderfyniad gan Banel Asesu Cynghorol ('y panel').

Bydd y panel yn cynnwys Cadeirydd YGAC, aelod annibynnol a chynrychiolydd Llywodraeth Cymru. Byddant yn asesu datganiadau personol a CV yr ymgeiswyr i benderfynu pwy y credant sy'n bodloni meini prawf y swydd orau a byddant yn llunio rhestr fer. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarperir gennych chi yn eich CV a'ch datganiad personol i asesu a ydych chi'n meddu ar y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol. Felly gwnewch yn siwr bod y dogfennau hyn yn dangos tystiolaeth sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol, os gwelwch yn dda.

Cynhelir sesiwn gyda rhanddeiliaid i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer. Bydd y sesiynau hyn yn cynnwys unigolion o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'i randdeiliaid. Gofynnir i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer sgwrsio â'r rhanddeiliaid yn ystod y sesiwn ar bwnc perthnasol a phwysig y cytunir arno yn nes at yr amser.

Ein bwriad yw cynnal y sesiwn â rhanddeiliaid a'r cyfweliadau yn rhithiol ar-lein.

Bydd yr ymgeiswyr cryfaf sydd wedi dangos sut maent yn bodloni'r meini prawf ar y cam gwneud cais yn cael eu dethol am gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych chi wedi gwneud cais dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol isafswm ar gyfer y swydd, byddwch yn cael gwahoddiad i gael cyfweliad hefyd.

Gofynnir i'r ymgeiswyr roi cyflwyniad byr yn y cyfweliad ar bwnc a nodir yn agosach at ddyddiad y cyfweliad.

Bydd y panel yn cymeradwyo ymgeiswyr y gellid eu penodi i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai'r Gweinidog ddewis cynnal cyfarfod ag ymgeiswyr y gellid eu penodi cyn gwneud penderfyniad.

Amserlen (arfaethedig)

Dyddiad cau'r hysbyseb:	07 Hydref 2022
Hidlo:	17 Hydref 2022
Sesiwn â rhanddeiliaid:	Tachwedd 2022
Cyfweliad:	14 Tachwedd 2022
Cadarnhau'r penodiad:	Rhagfyr 2022
Dechrau'r penodiad:	01 Ionawr 2023

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau Bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus.

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys merched, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu ddarpar staff newydd) berfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ac yn gweithredu'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad Hyderus o ran Anabledd. Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf isafswm ar gyfer y swydd.

Mae bodloni'r 'meini prawf isafswm' yn golygu bod rhaid i chi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y rôl yn gyffredinol ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os ydych chi'n dymuno trafod sut y byddem yn rhoi cymorth i chi petaech chi'n llwyddiannus, anfonwch neges e-bost i SharedServiceHelpdesk@gov.wales gynted ag y bo modd a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.

Pwy sy'n gymwys

Mae Rheoliad 11 Rheoliadau Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefnau) 1990 (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi manylion ar ba sail y gall unigolion fod yn anghymwys i'w penodi fel yr Is-gadeirydd. Cynhwysir rhagor o fanylion yn y pecyn hwn yn **Atodiad A**.

Os yw ymgeiswyr yn dymuno cael rhagor o eglurhad ynghylch y meini prawf pwy sy'n gymwys uchod dylent gysylltu â: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru gan nodi'r cwestiwn y dymunant gael ateb iddo.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd bod aelodaeth o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn eu gwneud yn anghymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymwyso) 2020.

Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk).

Yn arferol ni chaiff unigolyn wasanaethu fel aelod anweithredol ar Fwrdd mwy nag un corff GIG yng Nghymru ar yr un pryd.

Os ydych chi'n llwyddiannus byddwch yn derbyn llythyr gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi chi yn Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a fydd yn cadarnhau telerau cynnig y penodiad. Bydd eich penodiad yn ddarostyngedig i wirio geirdaon a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae dilyn Rhaglen Gynefino Aelod Annibynnol GIG Cymru yn orfodol yn dilyn eich penodiad a bydd yn ofynnol i chi fynychu'r cwrs nesaf fydd ar gael.

Gwrthdaro buddiannau

Bydd gofyn i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae hyn yn cynnwys buddiannau neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Gofynnir i chi ddatgan unrhyw weithgareddau neu rolau gwleidyddol hefyd.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl i chi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd a wahoddir i gyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ond ddim o anghenraid wedi ei gyfyngu i chwilio'r cyfryngau cymdeithasol a'r we. O ganlyniad gallai unrhyw ganfyddiad o'r gwiriadau hyn gael eu trafod yn y cyfweliad.

Ymholiadau

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Is-gadeirydd, cysylltwch â Trish Mills (Ysgrifennydd y Bwrdd) - trish.mills@wales.nhs.uk.

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus, Uned Cyrff Cyhoeddus - penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus ac os oes gennych chi ymholiadau am eich cais cysylltwch trwy penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn gwbl fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau gynted ag y bo'n bosibl a thrin yr holl ymgeiswyr â chwrteisi. Os oes gennych chi unrhyw gwynion am y modd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru, os gwelwch yn dda.

Yn ychwanegol at hyn, cewch ysgrifennu i: Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, G/08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.

Pwy sy'n gymwys

Atodiad A

Mae Rheoliad 11 (anghymhwyso ar gyfer penodi fel cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol) yn darparu, yn ddarostyngedig i reoliad 12 (sy'n gwneud darparieath yng nghyswllt diddymu'r anghymhwyso) Rheoliadau Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefnau) 1990 (fel y'i diwygiwyd), y bydd unigolyn yn anghymwys i'w benodi fel cadeirydd neu gyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru, gan nodi rhestr o resymau penodol.

Yn y cyd-destun penodol hwn byddai unigolyn yn anghymwys i'w benodi yn Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru am y rhesymau a ganlyn:

(a) eu bod wedi eu cael yn euog o unrhyw drosedd yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw ac wedi cael dedfryd o garchar (wedi'i ohirio ai peidio) am gyfnod o nid llai na thri mis heb yr opsiwn o ddirwy;

(b) eu bod yn ddarostyngedig i orchymyn cyfyngiadau methdalu neu orchymyn cyfyngiadau methdalu interim, neu orchymyn cyfyngiadau rhyddhau o ddyled neu orchymyn rhyddhau o ddyled interim dan Atodlen 4ZB Deddf Ansolfedd 1986;

(c) eu bod wedi eu diswyddo, ac eithrio trwy reswm dileu swydd, o unrhyw swydd gyflogedig â chorff gwasanaeth cyhoeddus, er na fydd unigolyn yn cael ei drin fel bod wedi bod mewn swydd gyflogedig am yr unig reswm ei fod -

(i) yn achos ymddiriedolaeth sefydliedig GIG yn gadeirydd, llywodraethwr neu gyfarwyddwr anweithredol yr ymddiriedolaeth;

(ii) yn achos grŵp comisiynu clinigol, yn gadeirydd neu'n aelod o gorff llywodraethu'r grŵp; neu

(iii) yn achos unrhyw gorff gwasanaeth iechyd arall, yn gadeirydd, yn aelod neu'n gyfarwyddwr y corff gwasanaeth iechyd dan sylw;

(d) eu bod yn unigolyn y mae eu cyfnod swydd fel cadeirydd, aelod, cyfarwyddwr neu lywodraethwr corff gwasanaeth iechyd ac eithrio grŵp comisiynu clinigol wedi'i derfynu ar sail -

(i) nad oedd er budd y corff gwasanaeth iechyd neu'r gwasanaeth iechyd y dylent barhau i fod yn y swydd honno,

(ii) diffyg presenoldeb mewn cyfarfodydd,

(iii) diffyg datgelu budd ariannol, neu

(iv) camymddwyn, camymddygiad neu fethiant i gyflawni ei ddyletswyddau;

(e) eu bod yn unigolyn a ddiddymwyd o swydd fel cadeirydd neu aelod o gorff llywodraethu grŵp comisiynu clinigol;

(f) eu bod yn gadeirydd, aelod, cyfarwyddwr neu'n gyflogai corff gwasanaeth iechyd ac eithrio grŵp comisiynu clinigol neu ymddiriedolaeth sefydliedig GIG, er bod yr eithriadau a ganlyn yn berthnasol i'r ddarpariaeth hon:

(i) ni fydd unigolyn yn cael ei anghymhwyso dan is-baragraff (f) rhag bod yn gyfarwyddwr anweithredol ymddiriedolaeth GIG y cyfeirir ati ym mharagraff 3(1)(d) Atodlen 2 y Ddeddf oherwydd ei gyflogaeth gyda chorff gwasanaeth iechyd

(ii) ni fydd unigolyn yn cael ei anghymhwyso dan is-baragraff (f) rhag bod yn gyfarwyddwr anweithredol ymddiriedolaeth GIG oherwydd bod yn gadeirydd neu'n aelod nad yw'n swyddog o'r Awdurdod Gwaed Cenedlaethol, Awdurdod Gwybodaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Glinigol (NICE), Awdurdod Logisteg y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu gorff Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG;

(iii) ni fydd unigolyn yn cael ei anghymhwyso dan is-baragraff (f) rhag bod yn gadeirydd neu'n gyfarwyddwr anweithredol ymddiriedolaeth GIG yn ystod y cyfnod rhwng y dyddiad y'i sefydlir a'i ddyddiad gweithredol trwy rinwedd bod yn gadeirydd neu'n gyfarwyddwr anweithredol ymddiriedolaeth GIG arall;

(g) eu bod yn unigolyn sy'n gadeirydd neu'n aelod o gorff llywodraethu grŵp comisiynu clinigol, neu'n gyflogai grŵp o'r fath;

(h) eu bod yn gadeirydd, cyfarwyddwr neu'n gyflogai ymddiriedolaeth sefydliedig GIG, er na fydd unigolyn yn cael ei anghymhwyso dan baragraff (h) rhag bod yn gyfarwyddwr anweithredol ymddiriedolaeth GIG y cyfeirir ati ym mharagraff 3(1)(d) Atodlen 2 y Ddeddf oherwydd ei gyflogaeth gan gorff gwasanaeth iechyd;

(i) eu bod yn —

(i) cyflawni neu'n darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol neu wasanaethau deintyddol sylfaenol dan Ran 1 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977,

(ii) partner mewn partneriaeth sydd, neu ei fod yn berchennog cyfreithiol sy'n cael budd o gyfranddaliadau mewn cwmni neu'n gyfarwyddwr corff corfforaethol sy'n darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol neu wasanaethau deintyddol sylfaenol dan Ran 1 y Ddeddf honno, neu

(iii) eu bod yn gyflogai unrhyw un o'r rheiny;

(j) eu bod wedi cael ei enw wedi ei ddileu, trwy gyfarwyddyd dan adran 46 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, o unrhyw restr a baratowyd dan Ran II y Ddeddf honno ac nad yw ei enw wedi ei gynnwys mewn rhestr o'r fath yn ddilynol neu mewn rhestr a baratowyd yn unol ag adran 28X y Ddeddf honno;

(k) eu bod yn gadeirydd neu'n aelod o'r corff rheoleiddio annibynnol Monitor (sydd bellach yn rhan o NHS Improvement).

https://ambiwlans.gig.cymru/

GIG CYMRU NHS WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust